# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

## 20/10/2009

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog

#### Mynediad ar gyfer Pobl Anabl

**C11 Paul Davies:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo mynediad cynhwysol i siopau ac i wasanaethau ar gyfer pobl anabl? OAQ(3)2313(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo cyfle cyfartal yn rhan allweddol o'n dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Ein nod yw sicrhau gwasanaethau da sy'n fanteisiol i bawb a bod y rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl yn cael eu dymchwel.

#### Visteon (Pensiynau)

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drafodaethau y mae wedi'u cynnal â Llywodraeth y DU ynghylch pensiynau cyn-weithwyr Visteon? OAQ(3)2312(FM)

**Y Prif Weinidog:** Gweinidogion Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y mater hwn. Yr wyf wedi trafod y mater gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a bydd yntau'n trafod y mater gyda'i gydweithwyr yn y Cabinet. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf os bydd unrhyw ddatblygiadau.

#### Y Dirwasgiad

**C13 Alun Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn helpu Cymru i adfer o'r dirwasgiad? OAQ(3)2311(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn cynnig atebion polisi a luniwyd yng Nghymru er mwyn cefnogi busnesau hyfyw, gwella sgiliau a chreu cyfleoedd cyflogi o safon uchel ledled Cymru. Rhoddodd yr uwch-gynhadledd yr wythnos diwethaf gyfle i gynnal trafodaethau cadarnhaol pellach gyda banciau'r stryd fawr mewn perthynas â sicrhau cyllid, yn enwedig ar gyfer y busnesau bach hynny yr effeithir arnynt gan y diffyg credyd ar hyn o bryd a chostau'r credyd hwnnw.

#### Iechyd y Cyhoedd

**C14 Val Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru? OAQ(3)2318(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae 2009 yn flwyddyn bwysig iawn i iechyd y cyhoedd yng Nghymru yng Nghymru wrth i'r Llywodraeth ddarparu sefydliad integredig newydd ar gyfer iechyd y cyhoeddus sef Iechyd Cyhoeddus Cymru, a datblygu Ein Dyfodol Iach, sef fframwaith strategol cyntaf Cymru ar gyfer iechyd y cyhoedd.

## Anhwylder Straen wedi Trawma

**C15 Mark Isherwood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth i gyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru sydd ag anhwylder straen wedi trawma? OAQ(3)2315(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi ymrwymo i wella'r gefnogaeth a'r driniaeth i gyn-filwyr ar draws Cymru. Gall cyn-filwyr gael gafael ar wasanaethau drwy eu meddygon teulu a drwy wasanaethau iechyd meddwl cymunedol. Mae triniaeth ar gael hefyd drwy wasanaeth straen wedi trawma'r GIG yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae hawl gan gyn-filwyr i gael blaenoriaeth o ran derbyn triniaeth a gofal y GIG am gyflyrau sy'n ymwneud â'u cyfnod yn gwasanaethu'r lluoedd arfog.